GwerthwchiGymru
# Creu Hysbysiadau Dwyieithog

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Cynnwys


Rhagarweiniad ........ 2
Creu a chyhoeddi hysbysiadau dwyieithog ........ 3
Creu yr hysbysiad iaith wreiddiol ........ 3
Dogfennau ychwanegol ........ 4
Creu cyfieithiad o’r hysbysiad ........ 4
Gwedd hysbysiad cyhoeddus ........ 10
Gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig ........ 12
Ychwanegu gwybodaeth at hysbysiad dwyieithog cyhoeddedig ........ 14
Dyfarnu hysbysiad contract dwyieithog ........ 15
Gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig ........ 16
Dal Hysbysiad yn ôl ........ 18
Gwybodaeth bellach ........ 19


 v15.12.2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Rhagarweiniad

Mae system GwerthwchiGymru'n galluogi creu rhai hysbysiadau penodol yn ddwyieithog, sy'n golygu fod modd cyhoeddi fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r un hysbysiad ar yr un pryd. Yna, gall cyflenwyr ddarllen yr hysbysiad yn eu dewis iaith trwy ddewis gweld naill ai'r fersiwn Gymraeg neu'r fersiwn Saesneg ar y wefan ac, os yn briodol, ddefnyddio'r swyddogaethau hysbysiad ychwanegol.

Gellir creu pob math o hysbysiad yn ddwyieithog ar wahân i hysbysiadau OJEU. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau gwefan (islaw trothwy OJEU), Dyfynbris Cyflym, hysbysiadau Cam 2 a hysbysiadau is-gontract. Gellir hefyd ddewis creu'r hysbysiadau hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Yn y canllaw hwn, dangosir i'r prynwr sut mae creu a rheoli hysbysiadau dwyieithog a dylid ei ddarllen cyn dechrau creu hysbysiad yn y ddwy iaith.

# Creu a chyhoeddi hysbysiadau dwyieithog

**Creu yr hysbysiad iaith wreiddiol**

Er mwyn creu hysbysiad dwyieithog, mae'n rhaid i chi greu'r hysbysiad yn eich dewis iaith wreiddiol. Unwaith i'r hysbysiad iaith wreiddiol gael ei greu'n llawn, cewch ddewis "creu cyfieithiad" o'r hysbysiad. Iaith wreiddiol yr hysbysiad fydd iaith y wefan a ddewiswyd gennych i'w greu. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r broses os mai fersiwn Saesneg y wefan a ddefnyddir.

I ddechrau creu'r fersiwn wreiddiol, cliciwch ar "Creu Hysbysiad Newydd" o'ch Panel Rheoli Prynwr




Dilynwch yr holl gamau i ddewis math, natur a gweithdrefn yr hysbysiad a chadarnhau'r rhain er mwyn bwrw ymlaen i lenwi manylion yr hysbysiad.

Dylid cwblhau pob cwestiwn yn yr iaith wreiddiol yn unig yn ystod y cam hwn, ar wahân i'r eithriadau isod:

## Dogfennau ychwanegol

Os ydych yn bwriadu atodi dogfennau ac eisiau atodi fersiwn Gymraeg a Saesneg ohonynt, dylech atodi'r ddwy fersiwn i'r hysbysiad iaith wreiddiol:



**Additional Documents**

If you wish, you can upload one or more documents e.g Microsoft Word, PDF, Excel etc. that will be made available on the site. Prospective bidders will be able to download these documents and return them directly to you.

Please note, if using the Postbox facility, the maximum file size limit of an individual document that can be uploaded by a supplier is 10MB.

* Required information.

Go to question: Additional Documents [Go]

**Attached Document Summary**

Individual File Size Limit: **100.00 MB**
Total Available File Space: **100.00 MB**
Documents Attached: **2**
Used File Space: **67.02 KB**
Remaining File Space: **99.93 MB**

**Upload a Document**

* Description:
(maximum 100 characters, you have 100 left)

* File Name: [Browse...]

[Add] Add a document from your Library

**Attached Documents**

| | File Name | Description | Created | File Size |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Car Park Improvements.docx | Car Park Improvements | 22/01/2014 | 33.51 KB |
| 2 | Gwaith Gwella'r Maes Parcio.docx | Gwaith Gwella'r Maes Parcio | 09/05/2014 | 33.51 KB |

[Delete]

[Next] [Save & Exit] [Cancel]

## Creu cyfieithiad o'r hysbysiad

Unwaith i chi orffen creu fersiwn iaith wreiddiol o'r hysbysiad, byddwch yn cyrraedd tudalen "Cwblhau Creu Hysbysiad" lle gwelwch ddewis "Creu cyfieithiad o'r hysbysiad hwn". Cliciwch y ddolen gyswllt hon i greu fersiwn yn yr ail iaith:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk


Notice Creation Completed

Congratulations, you have completed the data entry for the following notice:

1471 - Car Park Improvement Works

**Note**: The notice will not be published until you release it for publication.

You can now carry out the following actions:

- Preview the notice
- Create a translation of this notice
- Release the notice for publication
- Send the notice for sign-off
- Return to your notice list and publish later

Yna cewch gyfle i greu'r cyfieithiad yn yr ail iaith. Cliciwch "Creu" i ddechrau'r cyfieithiad.


Notice Creation - Languages

Select a language from the drop down to generate a copy of this notice for translation.

Please ensure the original notice is as complete as possible to avoid any delays in the publication process.

This process creates a copy of the current notice:

- Includes questions / answers
- Excludes additional options - these are set in the original notice

Only 1 notice can be created for each available language.

Choose a language

Language: Welsh

Create

Cancel

[Noder: Os nad ydych am greu fersiwn ail iaith o'r hysbysiad, ewch i'r adran "gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig"]

Yna cyflwynir tudalen Statws yr Hysbysiad o'r cyfieithiad o'r hysbysiad i chi, a nodir gyda theitl gwaith yr hysbysiad fydd â rhagddodiad dwy lythyren i ddynodi'r ail iaith. Er mwyn dechrau llenwi'r cyfieithiad, cliciwch "Golygu".




Yna, cewch eich harwain drwy'r dewin creu hysbysiad a gofynnir i chi ateb yr holl gwestiynau eto yn yr ail iaith. Er mwyn eich helpu, byddwch yn gweld yr atebion a roddwyd gennych yn yr iaith wreiddiol. Unwaith y byddwch wedi darparu'r cyfieithiad, dylech ddileu'r testun yn yr iaith wreiddiol.




Noder: Bydd y cwestiynau nad oes angen cyfieithiad ar eu cyfer, megis y codau a'r terfynau amser, yn cael eu copïo o'r gwreiddiol ac ni ddylid eu diwygio yn y cyfieithiad.

Unwaith fyddwch wedi cwblhau'r holl gwestiynau, byddwch yn cyrraedd tudalen Cwblhawyd y Gwaith o Greu Hysbysiad ac yno dylech ddewis "rhyddhau'r hysbysiad i'w gyhoeddi".




Cliciwch “Nesaf” i gyhoeddi’r hysbysiad a chewch ragolwg terfynol o’r ddwy fersiwn yn y naill iaith a’r llall. Trwy ddefnyddio’r tabiau a roddir, gellir toglo rhwng y ddwy fersiwn i sicrhau eu cywirdeb cyn cadarnhau a “Cyhoeddi” yr hysbysiad.



**Publish Notice Dates**

**Notice Verified**

Your notice has passed the verification process and is now ready for publication.
*Click* the **Publish** button if you wish to proceed.

**NOTE**: No changes can be made to the notice after it has been dispatched for publication. Please check that the deadline for your notice is correct and does not land on a weekend or public holiday. If you select to publish outwith normal working hours, please note that the 'dispatch' date will be the following working day.

Publish

Cancel

EN CY

CONTRACT NOTICE – NATIONAL

**Notice Type:** WORKS

**1 Authority Details**

1.1 Authority Name and Address

| | | |
|---|---|---|
| **Official Name:** Queens Road Council | | |
| **Postal Address:** 10 Queens Road , | | |
| **Town:** Aberdeen | **Postal Code:** AB15 4ZT | **Country:** UK |
| **For the attention of:** Duncan Dallas | **Telephone:** +44 1224650739 | |
| **E-Mail:** | **Fax:** | |
| **Internet Address (URL):** | | |

## Gwedd hysbysiad cyhoeddus

Pan gaiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru, bydd iaith yr hysbysiad yn ymddangos i'r defnyddiwr yn yr iaith a ddewiswyd ganddynt i ddefnyddio'r wefan. Dangosir dolen gyswllt i'r fersiwn amgen ar dudalen "Edrych ar Hysbysiad" dan "Testun Llawn yr Hysbysiad"



**View Notice**

Home > Notice Search > View Notice

Do you wish to record an interest in this notice?
Do you require any additional documents?

**Record your interest now**

**Notice Details**

Introduction | Full Notice Text | Further Info | Contact Info | Coding

**This notice is also available in the following languages:**

- Cymraeg

CONTRACT NOTICE – NATIONAL

**Notice Type:** WORKS

**1 Authority Details**

1.1 Authority Name and Address

| | | |
|---|---|---|
| **Official Name:** Queens Road Council | | |
| **Postal Address:** 10 Queens Road , | | |
| **Town:** Aberdeen | **Postal Code:** AB15 4ZT | **Country:** UK |
| **For the attention of:** Duncan Dallas | **Telephone:** +44 1224650739 | |
| **E-Mail:** | **Fax:** | |
| **Internet Address (URL):** | | |

1.2 Address from which documentation may be obtained

Os mai Dyfynbris Cyflym neu hysbysiad Cam 2 yw'r hysbysiad dwyieithog, ac felly wedi'i gyfyngu i'r cyflenwyr a wahoddir yn unig, bydd gwedd y cyflenwr o'r hysbysiad o'u rhestr Dyfynbris Cyflym neu restr diddordeb a nodwyd yn ddibynnol ar fersiwn iaith y wefan y maent yn dewis ei defnyddio. Darperir dolen gyswllt hefyd o fewn eu rhestr diddordeb a nodwyd i weld y fersiwn amgen trwy fewngofnodi i'r safle iaith arall.



## Quick Quote Details

Quick Quote control Panel > Quick Quote Details

Details of the Quick Quote are shown below. Please indicate whether you wish to accept or decline the invitation to participate. If you accept the invitation the 'Go to Postbox' button will appear allowing you to proceed to submit a response. If you decline the invitation you will be asked for a reason as to why you have declined it which will be provided to the purchaser for information.

A guide to the Quick Quote and details of how to submit your response electronically is available here Quick Quote Guide.

Quick Quote Actions

Go to Postbox

Decline Invitation

Summary | Full Text | Further Info

**This notice is also available in the following languages:**

- Cymraeg

QUICK QUOTE - SERVICES

**Section I: Quick Quote Details**

1.1 Official Name and Address of the Contracting Authority/Entity

Queens Road Council, Att: Duncan Dallas, Dept: Admin
10 Queens Road , ,
AB15 4ZT,
Aberdeen,GB.
Tel: +44 1224650739. Fax: .

# Gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig

O fewn eich gweithfan hysbysiadau cyhoeddedig, fersiwn iaith wreiddiol yr hysbysiad fydd i'w weld, gyda thestun yn egluro ei fod yn bodoli yn y ddwy iaith.


My Published Notice Workspace

Authority Control Panel > Published Notices

Detailed below is a list of published notices created by you. *Click* a notice title for further options.

Create Notice

3 records found. Jump to page 1 of 1 Go

| Title | Type | Deadline | Published |
|---|---|---|---|
| Car Park Improvement Works<br>*Note: this notice exists in more than one language* | Contract Notice | 27/06/2013 | 15/06/2013 |
| Award of Construction of Civic Square | Contract Award Notice | | 14/06/2013 |
| Construction of Civic Square | Contract Notice | 25/07/2013 | 14/06/2013 |

Trwy glicio ar deitl yr hysbysiad, gellir gweld yr hysbysiad cyhoeddedig a rhoddir dolen gyswllt i weld y fersiwn yn yr ail iaith.



## Notice Status

### Notice Wizard Details

| | |
|---|---|
| Document ID: | 1471 View the original text |
| Title: | Car Park Improvement Works |
| Type of Document: | Site Notice |
| Type of Notice: | Contract Notice |
| Services/Supplies: | Works Contract |
| Procedure Type: | Single stage procedure |
| Language: | English |
| Is Accelerated: | No |
| Document Source: | Wizard |
| Status: | Dispatched |
| Created: | 13/06/2013 18:33 by Duncan Dallas |
| Last Amended: | 13/06/2013 18:47 by Duncan Dallas |
| Released: | 15/06/2013 13:25 |

Copy Award

### Translations

This notice has been created in the following languages:

- Welsh

# Ychwanegu gwybodaeth at hysbysiad dwyieithog cyhoeddedig

Dim ond at fersiwn iaith wreiddiol hysbysiad y gellir ychwanegu gwybodaeth. O'r herwydd, dylid ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ddwyieithog, gyda'r wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg o fewn yr un ychwanegiad.




Os fyddwch angen newid y dyddiad cau neu ganslo'r hysbysiad, dim ond unwaith fydd rhaid gwneud hynny yn fersiwn iaith wreiddiol yr hysbysiad.

# Dyfarnu hysbysiad contract dwyieithog

Pan fyddwch yn cyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu ar gyfer contract dwyieithog gallwch ddewis cyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu yn y ddwy iaith.

O'r hysbysiad contract yn eich man gwaith hysbysiadau cyhoeddedig dewiswch "Dyfarnu":



**Statws yr Hysbysiad**

**Manylion yr Hysbysiad Dewin**

| | |
|---|---|
| Rhif Adnabod y Ddogfen: | 5333 Gweld y testun gwreiddiol |
| Teitl: | RFQ - Cartref i'r Ysgol / Home to School Transport YG67 |
| Math o Ddogfen: | Hysbysiad ar gyfer y Wefan |
| Math o Hysbysiad: | Hysbysiad o Gontract |
| Gwasanaethau/Cyflenwadau: | Contract Gwasanaethau |
| Math o Weithdrefn: | Gweithdrefn un cam |
| Iaith: | Saesneg |
| A yw'n Weithdrefn Gyflym: | Na |
| Ffynhonnell y Ddogfen: | Wizard |
| Statws: | Dispatched |
| Crëwyd: | 15/12/2015 10:56 gan Duncan Dallas |
| Diwygiwyd Ddiwethaf: | 15/12/2015 11:03 gan Duncan Dallas |
| Rhyddhawyd: | 15/12/2015 11:04 |

Copïo Dyfarnu

Bydd hyn yn creu hysbysiad dyfarnu yn iaith y wefan rydych yn ei defnyddio, gan rag-boblogi nifer o'r cwestiynau o'r testun sydd wedi'u cynnwys yn eich hysbysiad contract.

Pan fyddwch wedi gorffen creu fersiwn o'r hysbysiad dyfarnu yn yr iaith wreiddiol byddwch yn dod i dudalen "Cwblhau Creu Hysbysiad" a byddwch yn gweld yr opsiwn "Creu cyfieithiad o'r hysbysiad hwn". Cliciwch ar y ddolen hon i greu'r fersiwn ail iaith.




Caiff fersiwn iaith newydd yr hysbysiad dyfarnu ei rhagboblogi o gynnwys y fersiwn yn yr un iaith o'r hysbysiad contract. Dilynwch y weithdrefn creu hysbysiad i'r diwedd er mwyn cyhoeddi fersiynau o'r hysbysiad dyfarnu mewn dwy iaith.

## Gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig

Wedi i chi ddewis creu cyfieithiad, bydd eich gweithfan hysbysiadau anghyhoeddedig yn dangos bod hysbysiad anghyhoeddedig yn bodoli mewn dwy iaith:




Os mai cydweithiwr fydd yn gyfrifol am greu fersiwn ail iaith yr hysbysiad, dylech roi gwybod fod modd iddynt ddefnyddio’r weithfan hysbysiadau anghyhoeddedig a dechrau cyfieithu.

Trwy glicio ar deitl yr hysbysiad yn y weithfan, dangosir tudalen ‘Statws yr Hysbysiad’ yn y fersiwn iaith wreiddiol. Ar y dudalen hon, bydd dolen gyswllt i’r fersiwn ail iaith o dan “Cyfieithiadau”. Bydd clicio ar y testun sy’n disgrifio’r fersiwn ail iaith yn agor tudalen Statws yr Hysbysiad y fersiwn ail iaith a gellir golygu’r hysbysiad yma.



**Notice Status**

**Notice Wizard Details**

| | |
|---|---|
| Document ID: | 1471 View the original text |
| Title: | Car Park Improvement Works |
| Type of Document: | Site Notice |
| Type of Notice: | Contract Notice |
| Services/Supplies: | Works Contract |
| Procedure Type: | Single stage procedure |
| Language: | English |
| Is Accelerated: | No |
| Document Source: | Wizard |
| Status: | Not Released |
| Created: | 13/06/2013 18:33 by Duncan Dallas |
| Last Amended: | 13/06/2013 18:47 by Duncan Dallas |
| Released: | |

Edit Copy Delete Publish

**Translations**

If required, create a translation of this notice for translation to another language.

This notice has been created in the following languages:

- Welsh

**Additional Notice Options**

Listed below are the additional options available for this notice. View/Change Additional Options

| | | |
|---|---|---|
| Noted Interest: | 0 interest(s) | Change access to interest list |
| Additional Information: | 0 update(s) | |
| Additional Documents: | 2 document(s) | View/Change Additional Document List |




## Dal Hysbysiad yn ôl

Mae'r holl hysbysiadau gwefan a gyflwynir i'w cyhoeddi ar GwerthwchiGymru'n cael eu gwirio o ran ansawdd gan dîm cymorth GwerthwchiGymru. O dro i dro fe allai hysbysiad gael ei "ddal" gan y tîm cymorth gyda chais i ddiwygio manylion yr hysbysiad. Os digwydd hyn, dylech sicrhau fod unrhyw newid i hysbysiad dwyieithog yn cael ei gofnodi yn y ddwy fersiwn cyn ei ailgyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cyhoeddi hysbysiadau'n ddwyieithog, cysylltwch â thîm cymorth GwerthwchiGymru ar 0844 561 0672 neu help@sell2wales.gov.uk